

YSBYTY CYMUNEDOL BRO DDYFI

Cylchlythyr Ailddatblygu



Diweddariad

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen ar ailddatblygu ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi. Ers y cylchlythyr diwethaf, mae'r teils ar y prif floc a phaneli solar wedi'u gosod, ynghyd â thrawstiau to newydd i bob ardal arall. Mae gwelliannau ar y gyffordd ar waith ar hyn o bryd yn unol ag amodau cynllunio. Roedd staff yr ysbyty hefyd wrth eu boddau bod Carol Shillabeer, *Prif Weithredwr BIAP* a Kirsty Williams, *Is-gadeirydd BIAP* wedi mynychu'r safle i weld y gwaith.

Buddion Cymunedol

Mae'r prosiect yn dod â manteision cymunedol ehangach a gwerth cymdeithasol i'r maes megis cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau. Mae ein targedau'n cynnwys darparu o leiaf 10 swydd leol 10 cyfle prentisiaeth a 300 wythnos o hyfforddiant.



Buddion Cymunedol - Standin Willmott Dixon yn Ffair Gyfleoedd Coleg Ceredigion a Gweithdy Tetrahedron Ysgol Tywyn

Fel rhan o ymrwymiad tîm y prosiect i 'werth cymdeithasol', mae'r contractiwr arweiniol Willmott Dixon wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion lleol, yn rhannu cyngor gyrfaoedd yn ogystal â gweithgareddau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Ers cylchlythyr mis Chwefror, mae Willmott Dixon wedi cynnal ysgol STEM yn Ysgol Tywyn

Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ymarferol a thrafodaethau gan aelodau o'r tîm i drafod gwahanol rolau peirianeg yn y diwydiant adeiladu.

Buodd Willmott Dixon hefyd ymweld ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu, yn eu diwrnod o weithdai 'Giant Tetrahedron' gyda myfyrwyr blwyddyn 10 a gweithgaredd chwalu mythau sy'n ymwneud â'r rolau a'r llwybrau yn y maes adeiladu.

Roedd Ffair Gyfleoedd Coleg Ceredigion Aberystwyth, yn cyflwyno gyrfaoedd a chyfleoedd yn yr ardal leol, yn canolbwyntio ar brofiad gwaith a hyfforddiant sydd ar gael drwy Willmott Dixon a'r safle.

Rydym yn edrych ymlaen at roi diweddariad ar y rhain a mentrau cymdeithasol eraill yn ein cylchlythyr nesaf.

"Roeddwn wrth fy modd mai fy ymweliad cyntaf ag ysbyty ym Mhowys ers i mi gael fy mhenodi'n Is-gadeirydd oedd gweld y datblygiadau ym Machynlleth. Gyda'r gwaith bellach yn symud ymlaen yn gyflym, roedd yn gyffrous gweld sut mae'r cyfleusterau newydd yn dod yn eu blaen. Rydw i'n edrych ymlaen at ddychwelyd pan fydd pobl leol, a'r rhai sy'n darparu ein gwasanaethau yn elwa o'r buddsoddiad hwn, sydd mawr ei angen."

Kirsty Williams Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Addysgu



Lluniau datblygiad mis Ebrill

Yr Amgylchedd ac Ecoleg



Gwefru Cerbydau Trydan

Fel rhan o'r datblygiad, bydd y maes parcio presennol yn cael ei ail wynebu er mwyn cynyddu capasiti y maes parcio. Yn ychwanegol, bydd BIAP yn gosod chwe phwynt gwefru i gerbydau trydanol. Bydd gwaith dwythell pellach ar waith i ddiogelu'r safle yn y dyfodol ar gyfer y twf a ragwelir yn y nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan.

Bydd hyn yn creu mannau gwefru hygyrch i staff ac ymwelwyr â'r ysbyty, gan weithio tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Bydd hyn yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y bydd holl ddefnyddwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru, erbyn 2025, yn hyderus y gallant gael mynediad at seilwaith gwefru cerbydau trydan, ble bynnag a phryd bynnag y mae angen.

Paneli Solar

Mae dyluniadau ar gyfer ein To yn cynnwys teils ffotofoltäig i floc blaen yr ysbyty sy'n ein galluogi i harneisio ynni o olau'r haul i gynhyrchu trydan, gan ostwng ein dibyniaeth ar y grid cenedlaethol. Gan fod yr adeilad yn rhan o gadwraeth, mae'r paneli arloesol hyn wedi'u dewis ar gyfer eu hymddangosiad sy'n cyd-fynd â'r to llechi traddodiadol.



Lluniau datblygiad mis Ebrill - Llechi'r To

Gardd Synhwyrdd

Roedd cylchlythyr mis Chwefror yn tynnu sylw at 3 phrosiect ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn cael eu cynnal fel rhan o waith Ad-drefnu Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi. Un o'r rhain fydd datblygu gardd synhwyrdd wrth wraidd y datblygiad lle y gall staff, ymwelwyr a chleifion ei mwynhau.

Bwriad yr ardd synhwyrdd yw bod gwaith tirlunio, addurniadau, planhigion a deunyddiau gardd eraill yn cael eu dewis ar gyfer eu hapêl i bob un o'r pum synnwyr. Y nod yw cynnig profiad cyfoethocach a mwy therapiwtig i amrywiaeth o bobl ag anghenion gwahanol. Bydd yr ardd yn creu lle tawel, mwy diogel i bobl fwynhau treulio amser, gweithio a chymdeithasu yn yr awyr agored.

Ein bwriad yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi yw darparu gofod lles i'w defnyddio'n 'therapiwtig' hefyd ar gyfer gwasanaethau eraill fel iechyd meddwl a/neu adsefydlu. Bydd dyluniad y 'canopi' hefyd yn gweithredu fel arwyddbost ar gyfer y fynedfa newydd ac yn rhoi cyfle i ddathlu hanes ac arwyddocâd y safle hwn.

Yn ystod mis Mai byddwn yn cynnal cyfres o weithdai yn cynnwys ein cydlynnydd Celf mewn Iechyd, Rheolwr yr Amgylchedd a Chynaliadwydd a chynrychiolwyr lleol eraill i greu'r lle hwn i bawb ei fwynhau.

